On Sunday, 3 January 2016, 22:34, Bedwyr Gwilym <bgwilym@yahoo.co.uk> wrote:

(i)
Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn nifer o glybiau, mudiadau, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn ein cymuned. Gyda hynny mewn golwg, ‘rwyf yn galw ar y Cyngor Tref i gydnabod ac i ddathlu'r gwaith ardderchog sy’n cael ei wneud gan wirfoddolwyr drwy sefydlu gwobrau ‘Gwirfoddolwr/wraig y flwyddyn’. Nid yn unig fydd hyn yn dweud diolch, ond yn gyfle hefyd i hybu gwirfoddoli, gan annog eraill i wirfoddoli yn y gymuned.

(ii)
Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y llinell rhwng y Blaenau a Thrawsfynydd ym mis Gorffennaf 2015, a’r cwynion cynyddol sydd yn cael ei dderbyn gan drigolion lleol. Yr wyf yn galw ar Gyngor Tref Ffestiniog i lunio holiadur er mwyn canfod barn trigolion yr ardal ar ddyfodol y llinell ac i sicrhau bod pob un annedd o fewn ffiniau’r Cyngor yn derbyn o leiaf un holiadur drwy’r post